



# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

2021 dsc 4

RHAN 6

ATODOL

*Cydweithredu a hwyluso*

## 66 Dyletswyddau Gweinidogion Cymru i hwyluso cyflawni swyddogaethau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar hwyluso cyflawni swyddogaethau, gan bersonau o fewn is-adran (2), a roddir iddynt gan neu o dan Rannau 2 i 4.
- (2) Y personau yw—
  - (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
  - (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
  - (c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
  - (d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
  - (e) y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;
  - (f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o [Ddeddf Addysg 1996](#) (p. 56);
  - (g) awdurdod lleol yng Nghymru.